

Iddyn Nhw

Yn newid y drefn torri glaswellt er lles natur



Tynnwch y testun hwn cyn argraffu ac ychwanegwch eich gwybodaeth (tudalen we, cod QR neu fanylion cyswllt) a logo/s. Os nad oes gennych Adobe Acrobat defnyddiwch dempled PNG/JPG.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pam ydyn ni'n gadael i'r glaswellt dyfu?

Mae glaswellt hir yn well i fyd natur na glaswellt sy'n cael ei dorri'n fyr yn gyson. Mae'n bywyd gwyllt yn prnhau a rhaid gweithredu nawr i'w achub. Mae 1 o bob 6 rhywogaeth sydd wedi'i hasesu yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu yma. Mae hi'n argyfwng natur arnon ni.

Sut bydd hyn yn helpu'r bywyd gwyllt?

Mae glaswellt a blodau gwyllt yn rhoi bwyd i bryfed a chysgod iddyn nhw gynnal eu cylch bywyd. Mae torri'r glaswellt yn llai aml yn rhoi cyfle i flodau gwyllt dyfu. Mae pryfed yn peillio'r blodau i gynhyrchu hadau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r hadau'n cael eu bwyta gan adar mân fel pincod. Mae mamaliaid fel ystlumod, llygod y maes a draenogod yn bwyta'r planhigion ac infertebratau fel mwydod, chwilod a phryfed eraill. Mae'r cudyll, y boda (bwncath) a'r dylluan wen yn hela mamaliaid bach ac mae'r wrenol a'r wrenol ddu yn bwyta'r pryfed. Mae amffibiaid ac ymlusgiaid fel brogaod a llyffantod, nadroedd defaid a madfallod hefyd yn bwyta infertebratau. Gall dŵl naturiol fod yn gartref i fwy na 1,400 o wahanol fathau o infertebratau a llawer o blanhigion ac anifeiliaid eraill.

Pam mae pryfed peillio'n bwysig?

Pryfed sy'n peillio llawer o'r cnydau amaethyddol sy'n fwyd i ni. Y nhw hefyd sy'n peillio'r planhigion gwyllt sy'n cynhyrchu'r hadau, y ffrwythau a'r cnau sy'n fwyd i adar a mamaliaid. Mae pryfed yn angenrheidiol i gynhyrchu bwyd. Mae llawer o'r pryfed peillio hyn yn prnhau, yn bennaf am fod eu cynefin yn diflannu. Mae pryfed peillio angen blodau i'w bwyta, llefydd i fyw a dodwy wyau ynddyn nhw, a chysgod i'w larfâu ddatblygu. Mae gwenyn mêl hefyd yn beillwyr. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf yn cael eu ffermio a dydyn nhw ddim yn prnhau.

Pam mae dolydd yn dda i bobl?

Mae cael mynd i ganol natur yn rhoi hwb mawr i'n hiechyd a'n lles meddyliol, gan ganolbwyntio'r meddwl a gwneud i ni deimlo'n dawelach a hapusach. Trwy greu mwy o ddolydd, cawn fwy o gyfleoedd i brofi natur.

Ond mae'n edrych yn anniben a blêr!

Mae rhyw harddwch anffurfiol i dir lle mae'r glaswellt yn cael tyfu'n hir. Ar ôl blodeuo, mae'r dolydd hyn yn gallu edrych yn anniben a blêr wrth i'r planhigion ddefnyddio'u hegni i hadu i gynhyrchu blodau'r flwyddyn nesaf. Maen nhw'n dal i fod yn hynod bwysig i bryfed peillio, pryfed eraill, adar a mamaliaid fel y draenog.

Pa flodau gwyllt wela' i?

I chi gael dysgu enwau'r blodau gwyllt allai dyfu ar laswelltir yn y gwanwyn a'r haf, mae 'Natur Wylt' wedi paratoi canllaw i rai o'r blodau gwyllt pwysicaf i bryfed peillio. Cliciwch ar y canllaw: www.monlife.co.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tynnwch y testun hwn cyn argraffu ac ychwanegwch eich gwybodaeth (tudalen we, cod QR neu fanylion cyswllt) a logo/s. Os nad oes gennych Adobe Acrobat defnyddiwch dempled PNG/IPG.

